SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #42 SCHTh Gogledd Cymru – 03 Mai 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #42 – 03 May 2024**

## Andy Dunbobbin wedi ei ail-ethol fel CHTh gan bleidleiswyr y rhanbarth

Ar 2 Mai 2024, etholwyd Andy Dunbobbin o Lafur Cymru gan etholwyr Gogledd Cymru, i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) am y pedair blynedd nesaf. Cafodd canlyniad yr etholiad ei ddatgan ar brynhawn 3 Mai ym Mhrifysgol Wrecsam gan Ian Bancroft, Prif Weithredwr Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam a Swyddog Canlyniadau y Rhanbarth Heddlu.

## Andy Dunbobbin re-elected North Wales PCC by voters of the region

On 2 May 2024 the voters of North Wales re-elected Andy Dunbobbin of Welsh Labour to be the Police and Crime Commissioner (PCC) for the next four years. The result of the election was declared on the afternoon of May 3 at Wrexham University by Ian Bancroft, Chief Executive of Wrexham County Borough Council and Police Area Returning Officer for the PCC election in North Wales.



Roedd pob pleidleisiwr dros 18 yn medru cymryd rhan yn yr etholiad, yr etholiad CHTh gyntaf i ddefnyddio'r system cyntaf-i'r felin, yn lle'r system flaenorol o bleidlais amgen.

Cafodd Andy Dunbobbin ei ethol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru yn 2021. Mae'n dod o Gei Connah, lle mae'n byw efo'i wraig, ei fab a'i ferch. Gynt, 'roedd yn Gynghorydd Sirol efo Cyngor Sir y Fflint, dros

Registered voters aged over 18 could take part in the election, which was the first PCC election conducted by the first-past-the-post system instead of the previous alternative vote method.

Andy Dunbobbin was first elected the Police and Crime Commissioner for North Wales in 2021. He is from Connah's Quay where he lives with his wife, son and daughter. He was previously a County Councillor

ward Golfftyn Cei Connah, ac yn parhau i fod yn aelod o Gyngor Dref Cei Connah. Cyn cael ei ethol, fe fynegodd Mr Dunbobbin ei ddull gwasanaeth heddlu cymunedol (COPS) i blismona, ac fe ganolbwyntiodd ei faniffesto ar y pedwar piler strategol. Y rhain ydy; presenoldeb plismona cymdogaeth leol; cynorthwyo dioddefwyr, cymunedau a busnesau; system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol; comisiynydd heddlu a throsedd gweladwy a chyfrifol.

Mae gan y Comisiynydd bedair prif ddyletswydd, sef:

- Gosod y blaenoriaethau ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru
- Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru
- Dal y Prif Gwnstabl yn atebol, a
- Gwrando ar farn y cyhoedd ynglŷn â phlismona, ac ymateb iddo.

on Flintshire County Council for the Connah's Quay Golftyn ward but continues to be a member of Connah’s Quay Town Council. Prior to his election, Mr Dunbobbin laid out his community orientated police service approach (COPS) to policing and his manifesto centred on four strategic pillars. These are a local neighbourhood policing presence; supporting victims, communities and businesses; a fair and effective criminal justice system; and a visible and responsive Police and Crime Commissioner.

The Commissioner has four main duties, which are to:

- Set out the priorities for policing in North Wales
- Decide the budget for North Wales Police
- Hold the Chief Constable to account, and to
- Listen and respond to the public’s views on policing.



**Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Andy Dunbobbin:** "Mae'n anrhydedd mawr i mi gael fy ail-ethol gan bobl Gogledd Cymru. Mae'n dangos eu bod yn hapus gyda'r gwaith rwyf wedi bod yn ei wneud dros y tair blynedd diwethaf i wneud plismona yn fwy effeithiol, effeithlon ac atebol. Mae yna pob amser mwy o waith y gallwn ei wneud ac ni allaf aros i fynd yn ôl i wasanaethu holl bobl Gogledd Cymru, p'un a ydynt wedi pleidleisio drosof fi ai peidio. Hoffwn ddiolch i bawb a helpodd i gyfrannu at fy ymgyrch, fy nheulu, a phobl Gogledd Cymru am yr ymddiriedaeth a ddangosodd ynof unwaith eto."

**Police and Crime Commissioner of North Wales, Andy Dunbobbin, commented:** “I feel immensely honoured to have been re-elected by the people of North Wales. It shows that they are happy with the work I have been doing over the last three years to make policing more effective, efficient and accountable. There is always more work we can do and I can’t wait to get stuck back into serving all the people of North Wales, whether they voted for me or not. I would like to thank all who helped contribute to my campaign, my family, and the people of North Wales for the trust that have shown in me once again.”

**Ychwanegodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Amanda Blakeman:** "Hoffwn longyfarch y CHTh ar eu hetholiad. Fel heddlu, ein gweledigaeth ydy i Ogledd Cymru fod y lle mwyaf diogel yn y wlad i fyw, gweithio ac i ymweld – gweledigaeth 'dwi'n gwybod bod y CHTh yn ei rannu. Rydym yn barod efo'r lefelau isaf o drosedd yn genedlaethol, ond mae wastad mwy i'w wneud i leihau trosedd ymhellach. 'Rydw i'n edrych ymlaen at weithio efo'r CHTh yn y misoedd a'r blynyddoedd dilynol drwy ymgynghoriad â thrigolion Gogledd Cymru."

Mae canlyniad llawn yr etholiad fel a ganlyn:

**Llafur: 31, 950**
**Ceid: 26,281**
**Plaid Cymru: 23,466**
**Dem Rhy: 7,129**

**Mwyafrif 5,669**

**Chief Constable of North Wales Police, Amanda Blakeman, added:** "I would like to congratulate the PCC on their election. As a Force, our vision is for North Wales to be the safest place in the country to live, work and visit – a vision I know is shared by the PCC. We already have amongst the lowest crime levels nationally, but there is always more we can do to drive down crime even further. I look forward to working with the PCC in the coming months and years in consultation with the people of North Wales."

The full result of the election was as follows:

**Labour: 31, 950**
**Conservative: 26,281**
**Plaid Cymru: 23,466**
**Lib Dem: 7,129**

**Majority 5,669**

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy